LlG 35.5.157

# MARWNAD

I'R DIWEDDAR

# BARCH. R. PRYSE,

## CWMLLYNFELL,

*Yr hwn a fu farw Gorphenaf 6ed, 1869,*
*Yn 62 mlwydd oed.*

---

BETH yw'r wylo a'r galaru
Wyf yn glywed yma' thraw ;
Rhywrai sydd yn cael eu symud
I diriogaeth Brenin braw ;
Yn Nghwmllynfell a Brynamman
Llawer sydd yn brudd eu bron,
Colli ffryndiau a pherth'nasau
Yma ar y ddaear hon.

Angau, brenin dychryniadau,
'N tori lawr ar fryn a bro,
Ar y chweched o Gorphenaf
Daeth yn foreu i GORSTO,
Methu credu, eto'n ofni,
A yw'r newydd hyn yn wir,
Bod y cu a'r hoff weinidog
Wedi gado'r anial dir.

X205313700

Er mor anhawdd i'w ffarwelio,
  Eto, rhaid yw credu'r ffaith,
Mae'r parchedig PRYSE, Cwmllynfell,
  Wedi gorphen yma'i waith ;
Tri deg pedair o flynyddau
  A rhyw fisoedd gyda hyn,
Bu'u traddodi cenadwri
  'R hwn fu farw ar y bryn.

Fe ga'dd gystudd am rai misoedd,
  Tawel hunodd yn y ffydd ;
Er pob ymdrech gan feddygon,
  Chwalodd angau'r babell bridd ;
Un o weision ffyddlon Iesu
  Ydoedd yma ar y llawr,
Mae ef 'nawr yn dechreu cânu
  Yn nhrigfanau'r ail-fyd mawr.

Mawr yw'r wylo sydd yn Nghymru
  Trwy'r eglwysi'r dyddiau hyn,
Angau'n myn'd â rhai defnyddiol
  I briddellau oer y glyn ;
Llawer iawn o weision Iesu
  'N cael eu galw tua thref,
Rwy'n gobeithio cawn gwrdd eto
  Ar drigfanau pur y nef.

Pan wna'r is-fugeiliaid gilio,
  'Nol eu galw gan eu Duw,
Nid yw'r dlysferch yn amddifad,
  Mae'r Pen-bugail eto'n fyw ;
Arglwydd grasol, anfon i ni
  Wr fo'n gymwys yn ei le,
Gweddiwn am gael un i wisgo
  'R fantell hardd ddiosgodd e'.

Fe fu'n ddiwyd yn ei dymor
  Yn cyhoeddi efengyl gras,
Yn Nghwmllynfell a Gibea,
  Fe fu'n

pWG 16.12



Un o gewri'r weinidogaeth
  Ydoedd yma yn ei ddydd,
Llawer gwaith bu'n dwys weddio
  Am i'r rhwymau fyn'd yn rhydd.

Eglwys Saron sy'n galaru,
  Wedi colli'r bugail cu,
Un mor dda, un mor ddefnyddiol,
  Trwy'r ardaloedd yma fu ;
Fe bregethodd, fe weddiodd,
  A chyngorodd lawer iawn,
Hwyr a boreu am rinweddau
  'R iachawdwriaeth fawr ei dawn.

Yn Nghwmllynfell bu'n gweinyddu
  Drwy ei oes dros Frenin Nef,
Yno'n llywydd ar y fyddin,
  'N hwylio'r milwyr tua thref ;
Fe ddarluniai drefn y cadw,
  A'i thrysorau gwerthfawr, drud,
Perl holl berlau'r greadigaeth—
  Iesu'n marw dros y byd.

Pan fai'r gwron yn ei eglwys
  Yn arlwyo'r sanctaidd wledd,
Draw fe gilia'i y gelynion,
  Crynai satan ar ei sedd ;
'Roedd ei ddoniau fel y diliau,
  ' N dweyd am ffordd i achub dyn ;
Gorsedd gras oedd ei artrefle—
  Tynai'r nefoedd ato'i hun.

Fe ddiangodd o ofidiau
  A chystuddiau daear lawr,
Fe gyrhaeddodd draw i'r porthladd
  A ddymunodd lawer awr,
At y dyrfa ddirifedi,
  Ddysglaer, ogoneddus fry,
Sydd yn cânu â'u telynau
  Am rinweddau Calfari.

Arglwydd grasol, rho dy fendith
  I'r eglwysi yma 'n awr,
Ysbryd gwylio a gweddio
  A ddisgyno ar fach a mawr ;
Cofia'r weddw sy'n galaru
  Ac yn wylo ddydd a nos,
C'od ei serch i'r hardd drigfanau
  Lle na ddaw un awel groes.

Ar y nawfed o Gorphenaf,
  Hir fe gofir am y dydd,
Pan oedd canoedd yn ei angladd,
  Pawb a'u dagrau ar eu grudd ;
Dau o gewri'r weinidogaeth
  A bregethodd ger ei fedd—
Dr. Rees o Abertawy,
  Hefyd, Matthews, Castellnedd.

Heddwch mwy i'w lwch i lechu
  Yno'n dawel yn y bedd,
Gerllaw capel hardd Gibea,
  Yn y llwch yn wael ei wedd,
Hyd nes cano'r auraidd udgorn,
  A'r marwolion ddod yn fyw ;
Ar ol huno yn yr Iesu,
  Daw o'r bedd ar ddelw Duw.

Ond mae'r enaid wedi 'hedeg
  Uwchlaw angau, byd a'r bedd,
Draw mae heddyw yn Nghaersalem,
  Gyda'r Iesu yn y wledd,
Yno'n chwareu'r auraidd delyn
  Ar lanerchau gwynfa wen,
Yn mhlith engyl gwlad goleuni,
  Haleluwia fyth, Amen !

AELOD O GWMLLYNFELL.

D. W. a G. JONES, ARGRAFFWYR, LLANDILO.